SL(5)435 - Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2019

Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005 (O.S. 2005/2517) i gyflwyno mesurau—

(a) i atal Thaumetopoea processionea L. (Ymdeithiwr y Derw) rhag cael ei gyflwyno i Gymru, sy'n barth gwarchod cydnabyddedig ar gyfer y pla planhigion niweidiol hwn ("yr ardal warchodedig"); a

(b) i atal y pla planhigion niweidiol hwn rhag lledaenu o fewn yr ardal warchodedig.

Mae'n diwygio'r gofynion technegol y mae rhaid eu bodloni wrth ddod â phlanhigion penodol Quercus L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, i mewn i'r ardal warchodedig neu wrth symud y planhigion hynny o fewn yr ardal warchodedig.

Gweithdrefn

Negyddol.

Craffu ar faterion technegol

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3(ii) mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad

1. Mae'r rheol 21 diwrnod o dan Ddeddf Offerynnau Statudol yn darparu y dylid gosod offerynnau 21 diwrnod cyn iddynt ddod i rym. Mae hyn yn galluogi Aelodau i geisio diddymu offerynnau o'r fath cyn iddynt gael effaith, gan y gellir achosi dryswch os caiff deddfwriaeth ei diddymu ar ôl iddi gael ei gweithredu. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr amgylchiadau yn cyfiawnhau torri'r rheol honno.

Mae'r Memorandwm Esboniadol (ME) yn esbonio'r rheswm dros dorri'r rheol 21 diwrnod ar dudalen 2:

"...To ensure continued enforceability with the rest of the UK it has become necessary to breach the 21 day rule. Scotland laid their equivalent Statutory Instrument on the 15th July and it came into force on the 16th of July. England laid their Statutory Instrument on the 15th July which came into force on the same day.

Currently imports of oak trees from regions where this pest is present are allowed under certain surveillance and regulations, however, findings in the wider environment in England and Wales have proved that these regulations are not sufficient and as a result a number of OPM findings have been reported outside of

London across England and Wales. It is therefore necessary to immediately stop all potentially infested imports of Oak trees as soon as possible to reduce the potential spread of OPM throughout the UK…"

Mae'r ME yn nodi ymhellach ar dudalen 3:

"…The Order implements measures which strengthen import and movement requirements for oak trees, to minimise the risk of further incursions of Thaumetopoea processionea (oak processionary moth (OPM)).

It is necessary for the Minister to breach the 21 day laying rule due to the urgency needed to bring Welsh Government legislation in line with the rest of Great Britain. If not Wales will be a loophole in Plant trade and could still allow the importation of potentially infested material.

The earliest the Moths have been recorded flying in the UK is from 24 July and we need the ability to restrict potential plant trade pathways to minimise the spread and impact of this pest in Wales…"

Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, fel sy'n ofynnol o dan adran 11A o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, wedi hysbysu'r Llywydd am dorri'r rheol, mewn llythyr dyddiedig 19 Gorffennaf 2019.

Mae'r llythyr yn hysbysu'r Llywydd am dorri'r rheol 21 diwrnod ar un llaw, ac mae'r Nodiadau Esboniadol a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau ar y llaw arall yn darparu rhesymau gwahanol o ran pam na chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r llythyr yn nodi:

"… Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol nac Ymgynghoriad wedi'u cynnal gan fod cymaint o frys i roi'r Offeryn Statudol ar waith. Fodd bynnag, mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi ac wedi'i osod gyda'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno…"

Fodd bynnag, mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi *"an impact assessment has not been produced for the instrument as no, or no significant, impact on the private, voluntary or public sector is foreseen"*. Yn yr un modd, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi ar dudalen 4 *"The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations"*.

Felly, mae'n aneglur pam na chafodd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei gynnal y tro hwn, gan fod y rhesymeg a ddarparwyd yn anghyson.

Goblygiadau sy'n deillio o adael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Derbynnir bod y gwahanol resymau a roddwyd am beidio â chynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn golygu ei bod yn anodd canfod yr union reswm.

Y prif reswm yn yr amgylchiadau hyn oedd natur frys y Gorchymyn, sy'n cael ei gyfiawnhau o dan baragraff 4.2 o'r Cod Ymarfer ac fel y nodir yn y llythyr at y Llywydd.

Mewn gwirionedd, o ystyried bod hyn wedi ei gyfyngu i gyfyngiad ar un math o goeden yn cael ei mewnforio o ffynhonnell gyfyngedig a phenodol iawn, nid oedd unrhyw effaith sylweddol ar y sector preifat, y sector gwirfoddol na'r sector cyhoeddus.

Er hynny, derbynnir bod y prif reswm yn aneglur ar wyneb y Gorchymyn ac y dylid sicrhau ei fod yn eglur.

Bydd y Gorchymyn hwn yn ddiangen ar y 'diwrnod ymadael' gan fod Atodlen 4 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005 yn cael ei hepgor yn rhinwedd erthygl 52 o Reoliadau Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

Yn yr amgylchiadau bwriedir cywiro'r Nodyn Esboniadol drwy gyfwng slip cywiro, os yw'r pwynt hwn yn dal yn berthnasol ar ôl 31 Hydref 2019.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfodydd ar 16 a 23 Medi 2019 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.